

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r gwasanaeth: Canolfan Iechyd
Nant Dowlais, Cwmbrân

Dyddiad y gweithgarwch: 05 Hydref
2022

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Iechyd Nant Dowlais fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Iechyd Nant Dowlais yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i gleifion ledled Cwmbrân ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ddau safle ac yn cyflogi tîm clinigol amlddisgyblaethol mawr, gyda chymysgedd o feddygon teulu ac uwch-ymarferwyr nyrso.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 5 Hydref a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau cyfredol er mwyn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sydd ar waith i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y practis yn cynnal yr ansawdd disgwylidig o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

-
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill? Gall hyn gynnwys timau iechyd meddwl, gwasanaethau gofal eilaidd a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.
-

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Ymhlith y dogfennau allweddol y gwnaethom ofyn amdanynt roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg diogelwch tân.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn ystod y pandemig. Ni chafodd y naill safle na'r llall ei gau ar unrhyw adeg i'r cyhoedd, ond roedd cyfyngiadau ar waith o ran mynediad corfforol yn unol â'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol. Er i'r gwasanaeth dreialu rhai ymgynghoriadau rhithwir, dywedwyd wrthym mai dros y ffôn y cynhaliwyd y rhan fwyaf o ymgynghoriadau. Roedd y cleifion yn cael gwahoddiad i fynychu'r safleoedd ar ôl trafodaeth dros y ffôn os oedd y clinigwyr o'r farn bod angen iddynt wneud hynny.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r practis wedi ailddechrau cynnal mwy o apwyntiadau wyneb-yn-wyneb fel y drefn safonol, ac mae ymgynghoriadau dros y ffôn ar gael hefyd os bydd eu hangen. Dywedwyd wrthym mai dim ond dros y ffôn y gellir trefnu apwyntiadau brys. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw anfantais i gleifion nad oes ganddynt fynediad digidol - menter gadarnhaol yn ein barn ni.

Disgrifiodd rheolwr y practis y broses brysbennu a oedd yr un fath ar gyfer y ddau safle. Caiff swyddogion llywio gofal eu cyflogi fel y pwynt cyswllt cyntaf i'r cleifion. Byddant naill ai'n atgyfeirio'r cleifion at y gwasanaeth mwyaf priodol os bydd angen neu'n trefnu apwyntiad wyneb-yn-wyneb. Cawsom sicrwydd gan reolwr y practis na fyddai'r swyddogion llywio gofal yn cynnig cyngor clinigol. Mae'r meddygon ar alw yn adolygu'r rhestr ddyddiol o gleifion ac yn dyrannu'r clinigydd mwyaf priodol yn unol ag anghenion y cleifion. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau y caiff y cleifion eu gweld gan yr unigolyn cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i helpu siaradwyr Cymraeg i gael gafael ar ofal yn eu mamiaith. Mae'r wefan a'r sianelau cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, ac roedd llinell ffôn y practis yn ddwyieithog hefyd. Y tu mewn i'r meddygfeydd, mae holl wybodaeth y bwrdd iechyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym fod dau feddyg teulu yn siarad Cymraeg a'u bod felly'n gallu helpu siaradwyr Cymraeg i drafod eu gofal yn Gymraeg. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw swyddogion llywio gofal

yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Nodwyd gennym fod un swydd wag ar gyfer swyddog llywio gofal, ac efallai yr hoffai'r practis ystyried a fyddai cyflogi siaradwr Cymraeg o fudd i'r practis ac i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn dau gartref gofal lleol. Mae uwch-ymarferydd nyrsio yn cynnal adolygiadau wythnosol o'r cleifion o bell. Bydd yr uwch-ymarferydd nyrsio naill ai'n ymdrin ag unrhyw bryderon ei hun neu'n eu huwchgyfeirio at feddyg teulu a fyddai'n ymweld â'r cartref gofal. Byddai'r staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau'r cartref gofal wrth gyrraedd y safle.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom gopïau o asesiadau risg tân blaenorol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2021 ar safle Fairwater Square a Greenmeadow Way. Roedd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddau asesiad risg tân yn cynnwys nifer o argymhellion brys a blaenoriaeth uchel ar gyfer meysydd yr oedd angen ymdrin â nhw er mwyn lleihau'r risg tân ar y ddau safle i lefel dderbyniol, neu ei chynnal ar y lefel honno. Nododd y ddau asesiad risg tân hefyd mai'r dyddiad awgrymedig ar gyfer yr adolygiad nesaf gan arbenigwr tân cymwys oedd mis Chwefror 2022. Yn ystod y gwiriad ansawdd, ni lwyddodd y practis i ddarparu tystiolaeth wedi'i dogfennu o'r camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â'r argymhellion. Cadarnhaodd y practis hefyd nad oedd unrhyw adolygiad wedi cael ei gynnal o'r asesiadau risg tân ers mis Chwefror 2021.

O ganlyniad, ni allem fod yn sicr bod iechyd, diogelwch a llesiant y cyflogeion na'r bobl a oedd yn ymweld â'r ddau safle yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu mewn ffordd weithredol, na bod y risgiau diogelwch tân a nodwyd yn cael eu monitro, eu lleihau a/neu eu hatal. Oherwydd ein pryderon, gwnaethom gyhoeddi llythyr Sicrwydd ar Unwaith. Dyma lle y byddwn yn ysgrifennu at y gwasanaeth o fewn deuddydd o gwblhau'r gwiriad ansawdd er mwyn cyflwyno ein canfyddiadau lle mae angen camau unioni brys. Cyfeirir yn fanwl at y materion Sicrwydd ar Unwaith, ac ymateb y bwrdd iechyd, yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod gwerthusiad iechyd a diogelwch o'r amgylchedd wedi cael ei gynnal ym mis Medi 2021 ar safle Fairwater Square. Nododd y gwerthusiad fod safon y trefniadau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn gyffredinol foddhaol, ond gwnaed argymhellion ar gyfer gwella'r safonau. Yn ystod y gwiriad ansawdd, ni lwyddodd y practis i ddarparu tystiolaeth wedi'i dogfennu o'r camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â'r argymhellion. Rhaid i'r practis roi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau i AGIC er mwyn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r gwerthusiad iechyd a diogelwch.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol y gwnaethom ofyn amdanynt roedd:

- Polisiâu atal a rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau
- Data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y staff.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o ganllawiau a chyflwyniadau COVID-19 a oedd wedi'u rhannu â'r staff a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau i'r staff eu dilyn yn ystod y pandemig. Cafodd rhai o'r cyfyngiadau y tu mewn i'r practis eu llacio pan symudodd y rhybudd COVID-19 cyffredol i lefel sero. Erbyn hyn, dim ond wrth fynd i mewn i ardaloedd clinigol y mae'n ofynnol i'r cleifion wisgo masgiau. Fodd bynnag, mae'r staff yn cadarnhau'n rheolaidd nad oes gormod o gleifion yn yr ystafel aros er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol (PPE), a oedd yn cynnwys cyngor ar wisgo a diosg y cyfarpar ac ar gael gwared yn ddiogel ar gyfarpar a oedd wedi'i ddefnyddio. Mae posteri ar wisgo a diosg hefyd i'w gweld ym mhob rhan o'r practis er mwyn atgoffa'r staff. Caiff gwiriadau stoc wythnosol eu cynnal o lefelau PPE a chadarnhaodd rheolwr y practis fod stoc ddigonol ar gael yn y practis.

Gwnaethom drafod y broses ar gyfer gweld cleifion yr amheuwyd bod ganddynt salwch heintus, gan gynnwys COVID-19, yn ddiogel. Mae gan y practis ystafell glinigol ddynodedig wrth ymyl y fynedfa a gaiff ei defnyddio ar gyfer cleifion a allai fod yn heintus y mae angen ymgynghoriad brys wyneb-yn-wyneb arnynt. Caiff y cleifion eu hebrwng yn syth i'r ystafell glinigol i gael eu hasesu gan aelodau o'r staff sy'n gwisgo PPE priodol. Ar ôl yr ymgynghoriad, caiff y claf ei hebrwng allan o'r adeilad, a byddai'r clinigydd yn glanhau'r ystafell glinigol yn drylwyr.

Gwelsom fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Cawsom hefyd gopiau o amserlenni glanhau diweddar a oedd wedi'u cwblhau ac yn gyffredol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom ofyn i'r staff sut roedd y gwasanaeth yn monitro cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau ar gyfer atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y practis. Dywedwyd wrthym

nad oes archwiliadau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ond bod gwaith yn mynd rhagddo i greu cyfres o dempledi monitro. Gwnaethom argymhell y dylid cwblhau'r templedi monitro a'u rhoi ar waith mewn modd amserol er mwyn rhoi sicrwydd i'r gwasanaeth bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyrraedd.

Gwnaethom ofyn am ddata i ddangos bod y staff yn cydymffurfio â hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Cawsom daenlen a oedd yn dangos bod rhai aelodau o'r staff gweinyddol a'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau, ond nad oedd pawb wedi gwneud. Rhaid i'r practis roi sicrwydd i AGIC fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant atal a rheoli heintiau fel y bo'n ofynnol.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn cynnal ansawdd gofal cleifion.

Ymhlith y dogfennau allweddol y gwnaethom ofyn amdanynt roedd:

- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion cyfarfodydd staff diweddar
- Hunanasesiad AGIC.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd yn amlwg bod y practis wedi gweithio'n galed drwy gydol y pandemig er mwyn parhau i ddiwallu anghenion ei gleifion. Roedd mwy o'r staff yn gweithio o bell ac roedd mwy o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer apwyntiadau er mwyn sicrhau bod digon o amser i lanhau'n effeithiol rhwng cleifion. Lluniwyd cynllun parhad busnes COVID-19 er mwyn rhoi canllawiau i'r staff ar weithio drwy'r pandemig. Dywedwyd wrthym fod pum meddygfa yng Nghlwtwr De Torfaen wedi llunio cytundeb i rannu adnoddau pe byddai, er enghraifft, nifer uchel o staff yn absennol mewn un practis oherwydd COVID-19. Gwelsom fod cynllun safonol ar waith ar gyfer parhad busnes ac adfer a oedd yn nodi sut y byddai'r practis yn cael ei reoli a'i weithredu o dan unrhyw amgylchiadau eithriadol ac andwyol eraill fel llifogydd.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cydweithio'n dda yn ystod y pandemig er mwyn parhau i ddiwallu anghenion y practis. Fodd bynnag, cydnabu rheolwr y practis y pwysau yr oedd hyn wedi'i roi ar y staff i gyflenwi pan oedd aelodau eraill o'r staff yn absennol. Ar hyn o bryd, mae nifer bach o swyddi gwag yn y practis a dywedwyd wrthym fod ymgyrch recriwtio barhaus ar waith i lenwi'r swyddi hyn.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd partneriaeth misol yn cael eu cynnal rhwng y partneriaid i drafod materion gweithredol a materion rheoli. Dywedwyd wrthym fod uwch-aelodau o staff o bob rhan o'r clwtwr hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion cyffredin ac i rannu gwersi a ddysgwyd.

Gwnaethom drafod yr heriau a wynebwyd gan y practis yn ystod y 12 mis blaenorol. Dywedwyd wrthym ei bod yn aml wedi bod yn anodd sicrhau mai dim ond ei waith gofal sylfaenol roedd y practis yn ymgymryd ag ef. Roedd rhai gwasanaethau eilaidd wedi disgwyl i'r practis ymgymryd â gwaith nad oedd yn rhan o'i gylch gwaith yn ystod y pandemig. Roedd y practis wedi dal ei dir gan sicrhau mai dim ond y gwaith mae'n gyfrifol amdano a wnaed ganddo. Mae'r heriau cyfredol yn cynnwys y cynnydd o ran gwaith busnes fel arfer o ganlyniad i'r ôl-groniad yn deillio o gyfnod COVID-19. Er enghraifft, cynhaliwyd adolygiadau blynyddol dros y ffôn yn ystod y

pandemig lle bynnag y bu'n bosibl, ond mae'r practis bellach yn ymgymryd â gwaith i sicrhau y caiff pob claf adolygiad blynyddol wyneb-yn-wyneb.

Dywedwyd wrthym fod y trefniadau â'r gwasanaeth y tu allan i oriau a mynediad i weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach fel timau iechyd meddwl plant, glasoed ac oedolion yn gweithio'n dda ar y cyfan. Foddbynnag, bu cynnydd yn yr amseroedd atgyfeirio i gleifion gael eu gweld gan weithwyr gofal eilaidd proffesiynol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod sgrymiau wythnosol yn cael eu cynnal ymhlith timau fel y staff clinigol, y swyddogion llywio gofal a'r gweinyddwyr er mwyn rhannu adborth amserol a thrafod materion sy'n ymwneud â'r practis. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oes nodiadau na chofnodion yn cael eu cymryd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Rydym yn argymhell y dylai'r practis lunio cofnodion o'r cyfarfodydd hyn a'u rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod yr aelodau hynny o staff nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Gwnaethom ofyn am gael gweld data ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol a chawsom daenlen anghyflawn. O ganlyniad, roedd yn anodd penderfynu a oedd aelodau o'r staff yn cydymffurfio ai beidio. Cadarnhaodd rheolwr y practis ei fod wedi bod yn anodd cadw golwg ar hyfforddiant gorfodol oherwydd systemau electronig annigonol. Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal ymarfer i gadarnhau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i gyflawni eu dyletswyddau. At hynny, rydym yn argymhell y dylid rhoi system newydd ar waith er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn y dyfodol.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun Gwella Ar Unwaith

Lleoliad: Canolfan Iechyd Nant Dowlais

Dyddiad y gweithgarwch: 05 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis roi sicrwydd i AGIC ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhellion yn deillio o'r asesiadau risg tân a gynhaliwyd yn y ddwy feddygfa ym mis Chwefror 2021.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Rwyf wedi cysylltu â'r cwmni perthnasol i ddod allan wythnos nesaf i edrych ar y gwelliannau sydd eu hangen i'r drysau ac i glirio'r ardaloedd y nodwyd eu bod yn ardaloedd risg uchel. Wedyn, caiff y gwaith ei gynnal dros y penwythnosau nesaf er mwyn osgoi unrhyw achosion o darfu ar y cleifion.	Rachel Bentley	O fewn mis, gan ddibynnu ar allu'r gweithlu i gwblhau'r gwaith o amgylch dyletswyddau gofal cleifion.
Wedi hynny, rhaid i'r practis drefnu i unigolyn cymwys gynnal asesiad risg tân arall yn y ddwy feddygfa er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC fod y risg tân wedi'i rheoli a'i bod ar lefel dderbyniol o	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Ar ôl i'r gwaith uchod gael ei gynnal - byddwn yn cysylltu â'r gwasanaeth tân i drefnu asesiad risg tân newydd yn unol â'i ganllawiau.	Rachel Bentley	3/12 - gan ddibynnu ar argaeledd

leiaf.				
--------	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rachel Bentley

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 14 Hydref 2022

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Iechyd Nant
Dowlais

Dyddiad y gweithgarwch: 05 Hydref
2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis roi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau i AGIC er mwyn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r gwerthusiad iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ym mis Medi 2021.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Gwnaethom adolygu ein cynllun iechyd a diogelwch blaenorol ac rydym wedi trefnu i adolygiad iechyd a diogelwch newydd gael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf; rydym yn aros am gadarnhad o'r dyddiad ar hyn o bryd.	Rachel Bentley	3 mis
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff templedi monitro eu cwblhau a'u rhoi ar waith mewn modd amserol er mwyn rhoi sicrwydd i'r gwasanaeth bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cyrraedd.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae templedi ar gyfer monitro prosesau atal a rheoli heintiau bellach ar waith ac mae'r tîm nyrsio yn eu goruchwyllo. Bydd yn eu hadolygu bob mis ac fel practis, byddwn yn adolygu'r broses bob blwyddyn neu os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd mewn deddfwriaeth neu yn y practis.	Amanda Morgan/Rhonwen Davies-Keane/ Gemma Ramsahye	Ar unwaith

Rhaid i'r practis roi sicrwydd i AGIC fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant atal a rheoli heintiau fel y bo'n ofynnol.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Dylai pob aelod o'r staff ddarparu tystiolaeth i'r tîm rheoli o fewn mis er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio â hyfforddiant atal a rheoli heintiau.	Rachel Bentley a Hayley Cooke	1 mis
Rhaid i'r practis lunio cofnodion o gyfarfodydd staff a'u rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod yr aelodau hynny o staff nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Cytunwyd y bydd gweinyddwr yn mynychu ac yn cymryd cofnodion. Wedyn, bydd yn teipio'r cofnodion ac yn eu rhannu â'r tîm perthnasol. Cânt eu cadw mewn ffolderi ar ein system glinigol.	Amanda Morgan, Rachel Bentley a Hayley Cooke	Ar unwaith.
Rhaid i'r practis cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i gyflawni eu dyletswyddau.	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Dylai pob rheolwr llinell gadarnhau bod aelodau ei dîm yn cydymffurfio a neilltuo digon o amser iddynt gwblhau'r hyfforddiant naill ai o fewn ei oriau gwaith neu'r tu allan iddynt. Dylai'r staff ddarparu tystysgrifau ar gyfer yr hyfforddiant er mwyn gallu diweddarau'r daenlen.	Amanda Morgan, Rachel Bentley a Hayley Cooke	0 fewn 3 mis
Rhaid i'r practis roi system newydd ar waith er mwyn helpu i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn y dyfodol.	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Fel uchod, caiff y broses ei rhoi ar waith gan reolwyr llinell a'i goruchwyllo gan y tîm rheoli. Nid yw system bresennol y GIG i feddygfeydd yn ddigonol felly byddwn yn sicrhau bod ein cofnodion ni ein hunain yn gyfredol ac yn anfon nodiadau atgoffa at y staff ar adegau priodol. Byddaf yn trafod y mater â'r tîm e-Ddysgu.	Rachel Bentley	0 fewn 3-6 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rachel Bentley

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 08 Tachwedd 2022